

F3. Rheoli prosesau busnes

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â rheoli prosesau busnes i wneud yn siwr bod y sefydliad yn cyflawni allbynnau sy'n bodloni anghenion cwsmeriaid ac anghenion budd-ddeiliaid, a gofynion y sefydliad a gofynion cyfreithiol.

Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer rheolwyr canol.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac uned **B1. Datblygu a gweithredu cynlluniau gweithredol ar gyfer maes eich cyfrifoldeb** yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth reoli prosesau busnes. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Cyfathrebu
- Rheoli gwybodaeth
- Dadansoddi
- Asesu
- Cyflwyno gwybodaeth
- Dylanwadu
- Perswadio
- Trafod telerau
- Datrys problemau
- Blaenoriaethu
- Meddwl yn systematig
- Meddwl yn greadigol
- Adolygu

F3. Rheoli prosesau busnes

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Dylunio prosesau sy'n cyflawni deilliannau ar sail nodau ac amcanion busnes.
2. Nodi a darparu'r adnoddau y mae eu hangen arnoch.
3. Ystyried dylanwadau sy'n gallu effeithio ar sut y bydd prosesau'n gweithio ac ar eu siâp.
4. Cysylltu prosesau fel eu bod yn rhyngweithio yn y sefydliad drwyddo draw i ffurfio system gyflawn.
5. Darparu adnoddau a chefnogaeth i staff a budd-ddeiliaid eraill dan sylw.
6. Diffinio cyfrifoldebau proses.
7. Datblygu mesurau proses sy'n fforddiadwy ac yn darparu digon o wybodaeth i bobl benderfynu sut i reoli'r broses.
8. Sefydlu a defnyddio dulliau effeithiol i adolygu a gwella'r broses.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn sicrhau bod pobl yn cael gwybod am gynlluniau a datblygiadau.
2. Byddwch yn dod i gytundeb clir ynglyn â'r hyn y disgwylir i eraill ei gyflawni ac yn eu dal yn gyfrifol am hyn.
3. Byddwch yn ailadrodd gweithredoedd, neu'n gweithredu'n wahanol, i oresgyn rhwystrau a byddwch yn ymateb yn bositif ac yn greadigol i anawsterau.
4. Byddwch yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, polisiau'r sefydliad a chodau proffesiynol, ac yn sicrhau bod eraill yn cydymffurfio â'r rhain.
5. Byddwch yn monitro ansawdd y gwaith a'r cynnydd o'i gymharu â chynlluniau a byddwch yn gweithredu i gywiro pethau pan fydd angen.
6. Byddwch yn canolbwyntio sylw personol ar fanylion penodol sy'n allweddol i gyflawni canlyniadau llwyddiannus.
7. Byddwch yn nodi materion systematig a thueddiadau, ac yn cydnabod eu heffaith ar waith heddiw ac yfory.
8. Byddwch yn bachu cyfleoedd pan fyddan nhw'n codi i gyflawni nodau tymor hir.

F3. Rheoli prosesau busnes

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Egwyddorion a modelau rheoli proses yn effeithiol
2. Sut i ddiffinio prosesau busnes
3. Mathau o fesurau proses busnes a sut i fesur eu haddasrwydd
4. Y gwahaniaeth rhwng allbynnau a deilliannau proses
5. Sut i asesu newidiadau i brosesau o safbwynt risgiau a gwobrwyon o ystyried cost bosibl y buddsoddiad
6. Sut i gynnal dadansoddiad cost a budd
7. Mathau o offer dadansoddi a datrys problemau y gallech eu defnyddio wrth ddatblygu prosesau busnes
8. Sut i fesur effaith newidiadau i'r broses busnes

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Y sector a'r farchnad mae'ch sefydliad yn gweithio ynddi
2. Tueddiadau perthnasol yn y sector, datblygiadau a pherfformiad cystadleuwyr sy'n effeithio ar brosesau eich busnes

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Nodau ac amcanion eich sefydliad
2. Strwythur, gwerthoedd a diwylliant eich sefydliad
3. Sut bydd eich sefydliad yn ychwanegu gwerth trwy gyflenwi ei gynhyrchion, ei wasanaethau a'i brosesau
4. Anghenion eich cwsmeriaid gwirioneddol a phosibl, a budd-ddeiliaid allweddol eraill
5. Cynhyrchion, gwasanaethau a phrosesau eich sefydliad a'r gyd-ddibyniaeth rhyngddyn nhw
6. Mesurau perfformiad proses sy'n berthnasol i'ch sefydliad.